OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 2959

# Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) (Cymru) 2003

**Gwaharddiadau**

**7.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os gwaherddir disgybl cyn 9 Ionawr 2004 gan bennaeth ysgol a gynhelir neu (yn ôl y digwydd) athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion.

(2) Er gwaethaf dwyn i rym —

(a) adran 52(1) i (6), a

(b) diddymu adrannau 64 i 68 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 18 iddi(**1**),

mae'r darpariaethau canlynol, sef —

(i) adrannau 64 i 68 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 18 iddi, a

(ii) Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003(**2**),

i barhau i gael effaith, fel y bo'n briodol, mewn perthynas â gwaharddiad y mae paragraff (1) yn gymwys iddo.

(**1**) Mae adrannau 64 i 68 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 18 iddi i'w diddymu gan adran 215 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 22 iddi ar 9 Ionawr 2004 (*gweler*O.S. 2003/2961 (Cy.278) (C.108).

(**2**) O.S. 2003/287 (Cy.39).